**CABINET**
**28 Mehefin 2022**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom ddydd Mawrth 28 Mehefin, 2022.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd yn y Gadair)
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Dave Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Christine Jones a Billy Mullin.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Diogelu Busnes a'r Gymuned, Damian Hughes, Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygiad Sefydliadol ac Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd.

**YMDDIHEURIADAU**
Y Cynghorwyr: Ian Roberts a Chris Bithell

**9. DATGAN CYSYLLTIADAU**

Dim.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig o dan baragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**10. GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - ADNODDAU A STAFFIO**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad, oedd yn rhoi trosolwg o'r gwaith rhagweithiol sy'n digwydd i wella'r dull o recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr cymdeithasol profiadol ar draws y portffolio. Roedd y gwaith yn cael ei lywio gan Grŵp Tasg a Gorffen oedd yn defnyddio dull o ymateb i bwysau gweithlu drwy'r portffolio cyfan.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Datblygu rôl ymarferwyr arbenigol mewn gwasanaethau plant ac oedolion i adlewyrchu'r arbenigedd, gwybodaeth, ymreolaeth a chymhlethdod y penderfyniadau y mae gofyn i ymarferwyr eu gwneud. Byddai angen ystyried y datblygiad hwn yng nghyd-destun confensiynau cyflog a graddau;

(b) Cytuno ar dîm o weithwyr asiantaeth i gefnogi gwasanaethau drws ffrynt Plant wrth i ni ddatblygu a gweithredu ein cynllun i ailosod ac ailadeiladu ein gwytnwch;

(c) Bod y Cyngor yn ceisio recriwtio gweithwyr cymdeithasol â chymwysterau a phrofiad priodol o dramor; a

(d) Bod y Cyngor yn cydweithio ag awdurdodau cyfagos i ddatblygu dull unedig o recriwtio a chadw'r gweithlu yn cynnwys y posibilrwydd o daliad cadw/recriwtio a rhoi mentrau ar waith i reoli'r farchnad asiantaeth.

## 11. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.28am)

…………………………
**Y Cadeirydd**